| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Y Cyngor Llawn** |
| DYDDIAD: | **7 Mawrth 2019** |
| PWNC: | **Cyllideb 2019/20** |
| AELOD CABINET: | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Gyllid** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| PWRPAS: | **Gosod Cyllideb y Cyngor a phennu lefel Treth Cyngor 2019/20** |

**CYLLIDEB 2019/20**

Argymhellion y Cabinet i'r Cyngor llawn yw y dylid:

1. **sefydlu cyllideb o £248,013,890 ar gyfer 2019/20**, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £176,551,790 a **£71,462,100 o incwm o'r Dreth Cyngor, gyda chynnydd o 5.8%**.

2. ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20 er mwyn sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor **5.8%** yn gynnydd wythnosol o £1.46, neu cynnydd o £75.69 yn y Dreth Cyngor Band D blynyddol, o £1,300.53 i **£1,376.22** am 2019/20.

Mae effaith manwl hyn wedi'i osod allan yn y penderfyniad ffurfiol sy'n Atodiad 12.

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20, ac yn unol â'r drefn arferol, cyflwynir y gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig (Atodiad 8), gan sicrhau fod y gyllideb yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.

1.2 Eleni, mae'r Cyngor yn elwa o'r cynllunio tymor canolig mewn blynyddoedd blaenorol, gan ein bod yn medru defnyddio rhai arbedion cynlluniwyd yn flaenorol i gynorthwyo i fantoli'r gyllideb. Er hynny, rhaid cymryd rhai penderfyniadau anodd ar gyfuniad o gyflawni arbedion ychwanegol a chodi'r Dreth 5.8%.

1.3 Argymhellir codi'r Dreth 5.8% yn 2019/20 er mwyn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd, gan fyddai effaith gweithredu'r cynlluniau arbedion eraill a ystyriwyd wedi bod yn annerbyniol.

1.4 Wedi ymgynghori gyda'r cyhoedd, ac wedi trafod mewn dau gyfres o weithdai yn Rhagfyr/Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (14 Chwefror), mae'r Cabinet wedi ystyried y strategaeth ariannol 2019/20 – 2021/22, wrth argymell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2019/20.

1.5 Erbyn 2019/20, byddai angen cynyddu ein gwariant o £10.37m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod), gan gynnwys £2.5m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae rhestr o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).

1.6 Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, bydd raid priodoli £5.2m o arbedion (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3) ac wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 5.8% (mae manylion yn rhan 5 isod, ac yn Atodiad 6).

1.7 Mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau ar droed, ond am y tro yma rydym wedi sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2019/20, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 4, fydd yn golygu ychwanegu £18,316,130 at raglen gyfalaf 2019/20.

1.8 Mae'r gwaith modelu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sy'n Atodiad 8 yn dangos, oni bai fod rhywbeth sylfaenol yn newid yng ngweithrediadau'r Llywodraeth, ei fod yn debygol bydd angen trefniadau hyblyg er mwyn gallu gwireddu mwy o arbedion mewn blynyddoedd dilynol. I'r perwyl hyn, argymhellir y dylai'r Cabinet ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol, tra'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i ariannu awdurdodau lleol yn briodol.

1.9 Mae cyllideb 2019/20 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd 5.8% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth sicrhau arbedion, bwriedir eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl, ond gwelir y bydd hynny yn fwy heriol erbyn 2020/21 a tu hwnt.

1.10 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2019/20 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2019/20, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2018/19.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad i ariannu llywodraeth leol ar gyfer 2019/20. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

| **Grant Cynnal Refeniw 2018/19 – 2019/20** | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £** | **Cyngor Gwynedd swyddogol £** | **Cyngor Gwynedd "cash" £** |
|---|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2018/19 (heb addasu) | | 4,214,066,930 | 176,376,410 | 175,127,330 |
| Grant y Llywodraeth 2018/19 (wedi addasu) | | 4,227,135,930 | 176,926,640 | 175,677,570 |
| Grant y Llywodraeth 2019/20 | | 4,237,431,000 | 176,551,790 | 176,551,790 |
| | Cynnydd £ | +10,295,070 | -374,850 | +874,220 |
| | Cynnydd % | +0.2% | -0.2% | +0.5% |

Mae manylion pellach ar gael yma –

https://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/settlement/lg-settlement-2019-20/final-settlement-2019-20/?skip=1&lang=cy

2.2 Fe welir o ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru sy'n y tabl uchod yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn lleihad grant o £375k erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr 2018/19 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n leihad o -0.2%, gyda chyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru yn +0.2%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis y nifer disgyblion, nifer hawlwyr cymorth incwm, ayb, ac nid yw'r ffactorau rheiny wedi mynd o'n plaid ni eleni.

2.4 Er hynny, yn groes i'r cwtogiad £374,850 sy'n ffigyrau swyddogol "tebyg wrth debyg" Llywodraeth Cymru (uchod), derbyniwyd cynnydd go sylweddol o £1,249,070 oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd lleihad mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru. Golygai hynny fod y symudiad grant yn nhermau "cash" yn gynnydd net o £874,220 sy'n +0.5%.

## 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2019/20

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2019/20.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol | | 242,862,930 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 5,260,930 | |
| Pensiynau Athrawon | 1,632,340 | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 2,253,830 | |
| Ardollau | 372,860 | |
| Demograffi | 878,420 | |
| Trosglwyddiadau i'r Setliad | 546,640 | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 2,513,390 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | 360,060 | |
| Neilltuo cynnyrch ychwanegol Treth Cyngor y Premiwm i Gronfa | 669,560 | |
| Cost Benthyca / Llog ar falansau | -149,270 | |
| Addasiadau Incwm Gwasanaethau | -100,640 | |
| Grant Pensiynau Athrawon | -1,632,340 | |
| Grantiau Penodol | -2,000,000 | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 10,370,000 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2019/20 cyn arbedion | | 253,232,930 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2018/19**
Er mai £243m yw gwariant net 2018/19, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £403m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £99m ac yn codi bron i £61m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £5.26m**
Darperir ar gyfer cynnydd tâl 2% i staff y Cyngor, yn unol â chytundeb cenedlaethol, gyda % sylweddol fwy i rai staff ar raddfeydd isaf gwerth £1.6m i gyfarch gofynion 'cyflog byw' cenedlaethol. Hefyd, darperir £1.4m ar gyfer cynnydd tâl hyd at 3.5% i athrawon ysgolion Gwynedd.

3.4 **Pensiynau Athrawon £1.63m**
Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfraniad pensiwn cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2020, ac mae gwerth 7% o gost cyflogau athrawon ysgolion Gwynedd am 7 mis yn £1.63m. Mae'r 'Department for Education' yn ymgynghori ynglŷn ag ariannu'r gost yn llawn yn ysgolion Lloegr, ac ymhen hir a hwyr disgwylir derbyn grant penodol i ariannu'r gost yn ysgolion Cymru.

3.5 **Chwyddiant arall £2.25m**
Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat, ynghyd â chynnydd chwyddiant sylweddol ar gyllidebau tanwydd ac ynni.

3.6 **Ardollau £373k**
Yn Rhagfyr 2018, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 5.2% ar yr awdurdodau cyfansoddol, sy'n cynyddu'r gofyn ar Cyngor Gwynedd o £313k, tra bu cynnydd £10k mewn ardoll draenio arbennig i 'Cyfoeth Naturiol Cymru', a chynnydd £50k yn ardoll Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

3.7 **Demograffi £878k**
Cyfanswm sy'n adlewyrchu +£418k oherwydd cynnydd net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion, +£471k i'r Adran Oedolion oherwydd cynnydd anorfod mewn costau gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio, a +£11k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Theuluoedd.
Mae'r ffigwr net o +£418k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£617k, cynradd -£260k ac arbennig +£61k.

3.8 **Trosglwyddiadau i'r setliad £546k**
Ar wahân i adnoddau ar gyfer y gytundeb tâl athrawon (pwysau sydd wedi'i gynnwys o fewn 'Chwyddiant Cyflogau' uchod), mae dau gyfrifoldeb yn trosglwyddo i mewn i setliad grant Llywodraeth Cymru i'r Cyngor erbyn 2019/20. Bydd y cyllidebau sy'n trosglwyddo i gyllideb y Cyngor, ynghyd â'r cyfrifoldebau perthnasol, yn cael eu priodoli i'r adrannau perthnasol.

Felly, bydd cynnydd £312k yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu cyfrifoldebau newydd trothwy cyfalaf gofal preswyl.

Hefyd, bydd cynnydd £234k yng nghyllideb yr Adran Addysg i adlewyrchu trosglwyddiad mwy o brydau ysgol am ddim yng nghyd-destun gweithredu'r Credyd Cynhwysol.

3.9 **Pwysau ar Wasanaethau £2.51m**

'Bidiau' anorfod – gweler Atodiad 2 am fanylion pob 'bid' unigol.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £2.51m gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bid un-tro gwerth £38,280 o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

Cofier fod nifer o brif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn (fesul un, drwy benderfyniadau'r Cabinet), drwy Gynllun y Cyngor. Beth gyflwynir drwy'r "bidiau" yma yw ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, wedyn ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, trafodwyd yr holl 'bidiau' yma pryd y'i cyflwynwyd ar 'sleids' i'r gyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 4-7 Rhagfyr 2018, lle roedd aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

3.10 **Addasiadau Cyllideb Amrywiol £360k**
Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau mewn darpariaethau ar draws y Cyngor, ond yn bennaf neilltuo cyllideb wrth gefn ar gyfer cyfarch pwysau gwario ychwanegol posibl yn ystod 2019/20 (yn arbennig ym maes gofal plant) ac hefyd ar gyfer cyfarch sefyllfaoedd anodd gydag incwm yn ystod 2019/20 (tebyg i benderfyniad pris cinio ysgol Medi 2018).

3.11 **Premiwm Treth Cyngor £670k**
Argymhellir neilltuo cynnyrch Treth Cyngor y Premiwm yn 2019/20 i gronfa benodol i'w ddefnyddio er mwyn ariannu Strategaeth Tai y Cyngor. Roedd £2.03m wedi'i neilltuo yng nghyllideb gwreiddiol 2018/19, felly bydd yr ychwanegiad £670k yn golygu cyfanswm o £2.7m erbyn 2019/20. Rhoddir sylw penodol i hyn yn Atodiad 6.

3.12 **Costau Benthyca a Llog ar Falansau -£149k**
Rhagamcan o ostyngiad mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2019/20, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben.

3.13 **Addasu Cyllidebau Incwm Gwasanaethau -£101k**
Swm 'net' wedi addasu targed incwm gwasanaethau, yn cynnwys -£198k Oedolion (Llywodraeth Cymru wedi codi cap ffioedd di-breswyl wythnosol o £70 i £80), yr Adran Addysg +£66k (cost rhewi pris cinio ysgol ym Medi 2018), Ymgynghoriaeth -£100k (ffioedd ar staff ychwanegol), Cyllid +£97k (£55k oherwydd costau banc newydd a £42k o addasiad sybsidi budd-dal), Economi a Chymuned +£30k (yn bennaf ffioedd

Morwrol), ac Amgylchedd +£5k (+£40k ffioedd cynllunio, -£20k gofal stryd, a -£15k traffig a threfniadau statudol).

3.14 **Grantiau Penodol -£2m**

Derbynnir nifer sylweddol o grantiau penodol lle disgwylir yn aml i'r Cyngor ymrwymo i wariant penodol ychwanegol. Mewn rhai achosion, gellid defnyddio grantiau penodol i ariannu pwysau ar wariant anorfod.

Crybwyllwyd hyn eisoes yn 3.4 uchod lle disgwylir grant penodol er mwyn ariannu'r gost ychwanegol pensiynau athrawon. Hefyd, disgwylir grant £0.3m ar gyfer ariannu chwyddiant tâl athrawon yn 2019/20, grant pwysau gofal £1.2m gellid defnyddio er mwyn ariannu'r demograffi a 'bidiau' Oedolion a Plant, ynghyd â £0.5m i atal plant rhag cael eu derbyn i ofal gellid ei ddefnyddio i ariannu rhai bidiau ataliol yr Adran Plant.

## 4. ARBEDION

4.1 Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd gyda chyllideb 2018/19 i'r Cyngor llawn ar yr 8fed o Fawrth 2018 yn darogan bwlch ariannu rhwng £11m a £20m dros y 3 blynedd 2018/19 – 2020/21. Felly, penderfynwyd cychwyn yn gynnar ar y dasg heriol i adnabod arbedion sylweddol ar gyfer 2019/20 a tu hwnt.

4.2 Roedd hynny yn golygu fod y Cabinet yn gosod targedau arbedion heriol i'r adrannau, ac yn ystyried dros haf 2018 yr holl gynlluniau 'posib' a gyflwynwyd gan benaethiaid adrannau. Cyflawnodd aelodau'r Cabinet waith anodd o ddethol y cynlluniau cyflwynir yma'n Atodiad 3, a diystyrru opsiynau lle fyddai'r effaith ar bobl Gwynedd yn annerbyniol.

4.3 Wedi adnabod bwlch ariannu tebygol 2019/20 yn sgîl 'setliad' drafft siomedig Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Hydref 2018, eglurwyd sefyllfa'r gyllideb i aelodau'r Cyngor mewn cyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 4–7 Rhagfyr 2018.

4.4 Wedi gwrando ar adborth aelodau yn y 'Gweithdai Cyllideb', cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid adroddiad am arbedion arfaethedig i gyfarfod y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018, yn nodi fod y Cyngor yn wynebu bwlch ariannu sylweddol erbyn 2019/20 ac yn cyflwyno rhaglen o arbedion ar gyfer cyfarch y bwlch yn rhannol, gyda'r cynnydd mewn Treth Cyngor yn gorfod cyfarch y bwlch gweddilliol.

4.5 Ymhellach, cafwyd 6 'Gweithdy Arbedion' gydag aelodau'r Cyngor ar 18–28 Ionawr i glywed os roedd gan aelodau unrhyw gynigion i newid trywydd y strategaeth ariannol yma, a cafwyd 'Gweithdy Mawr' anffurfiol ar 5 Chwefror er mwyn sicrhau cydsyniad aelodau ar y ffordd ymlaen.

4.6 Hefyd, cynhaliodd y Cabinet ymgynghoriad gyda'r cyhoedd yn ystod mis Ionawr 2019 ac mae'r prif negeseuon wedi'u cyhoeddi ar lein yma –

www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghoriadstrategaethariannol

Ddaru'r Cabinet dalu sylw priodol i ganlyniadau'r ymgynghoriad wrth benderfynu os i weithredu'r cynlluniau arbedion. Ystyriwyd gwrthwynebiad y cyhoedd ac aelodau mainc cefn i rai cynlluniau penodol yn y Gweithdy Aelodau ar 5 Chwefror.

4.7 Wedyn, yng nghyfarfod ffurfiol y Cabinet ar 19 Chwefror, penderfynwyd peidio gweithredu'r 8 cynllun cyflwynir yn ail ran Atodiad 3. Fel gwelir ar ddiwedd Atodiad 3, cyfanswm gwerth yr 8 cynllun mae'r Cabinet wedi penderfynu peidio gweithredu yw £215,990.

4.8 Penderfynodd y Cabinet gymeradwyo gweithredu'r cynlluniau arfaethedig cyflwynir yn y rhestr gyntaf yn Atodiad 3, i gynhaeafu gwerth £2.24m o arbedion pellach yn 2019/20.

4.9 Hefyd, er mwyn dygymod gyda'r bwlch ariannu, gellid cynhaeafu £2.48m o arbedion 'Her Gwynedd' sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ac sy'n effeithiol yn 2019/20.

4.10 Yn ogystal, gofynnwyd i'r Prif Weithredwr fwrw mlaen gyda'i syniadau i ddarganfod £0.5m o arbedion effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau'r bwlch ariannu.

**Arbedion i ddygymod gyda Bwlch Ariannu 2019/20**

| | £ |
|---|---|
| Arbedion Cymeradwy Her Gwynedd | 2,483,100 |
| Cynlluniau Arbedion Arfaethedig | 2,235,940 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Pellach | 500,000 |
| Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | 5,219,040 |

4.11 O ganlyniad, mae cyfanswm o £5.22m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

## 5. BWLCH ARIANNU 2019/20, A'R DRETH CYNGOR

5.1 Gwelir o ran 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2019/20 yn £253.2m.

5.2 Nodwyd yn rhan 2 uchod fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £176.6m.

5.3 Fel eglurwyd yn rhan 3 uchod, mae cyfanswm o £5.22m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

**Sefydlu Cyllideb 2019/20**

| | £ |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2018/19 | 242,862,930 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 10,370,000 |
| Gofynion Gwario 2019/20 cyn Arbedion | 253,232,930 |
| llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | -176,551,790 |
| llai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | -5,219,040 |
| Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor | 71,462,100 |

5.4 Golygai hynny fod bwlch gweddilliol o £71.46m, ac argymhellir cyfarch y bwlch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 5.8% er mwyn cynhyrchu incwm digonol.

5.5 Erbyn 2019/20 bydd codi'r dreth 5.8% yn cynhyrchu £71.46m o incwm, yn cynnwys £2.7m o gynnyrch Premiwm a £3.05m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £75.69 i eiddo mewn Band D, neu £1.46 yr wythnos.

5.6 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol mewn dau gyfres o weithdai aelodau, ac wedi ystyried ymateb pobl Gwynedd i'r ymgynghoriad cyhoeddus, **mae'r Cabinet wedi argymell cynnydd Treth Cyngor o 5.8%, gyda threth 'Band D' o £1,376.22 am 2019/20.**

5.7 Bydd y dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5.8 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi a tai gwag) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2019/20

6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2019/20 ac yn cadarnhau rhaid parhau gyda'r strategaeth arbedion ar gyfer dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £248m, wedi ychwanegu £10.4m ar gyfer chwyddiant a pwysau ar wasanaethau. Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £176.6m a dibynnu ar £5.22m o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 5.8% i gynhyrchu £71.46m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2019/20.

**Cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/2020**

| | £ |
|---|---|
| Gofynion Gwario 2019/20 cyn Arbedion | 253,232,930 |
| Cyfanswm Arbedion 2019/20 | -5,219,040 |
| Cyllideb 2019/20 | 248,013,890 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 176,551,790 |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 5.8%) | 71,462,100 |
| Cyllideb 2019/20 | 248,013,890 |

6.3 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £248,013,890. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## 7. CYFALAF

7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau newydd 2019/20 – 2028/29 cafodd ei gymeradwyo yn y Cabinet 19 Chwefror. Mae manylion yn Atodiad 4.

7.2 Argymhellir ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

8.1 Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig diwygiedig wedi'i gynnwys yma'n Atodiad 8. Eleni, mae mwy o ansicrwydd am y dyfodol oherwydd Adolygiad Gwariant 2019 Llywodraeth San Steffan.

8.2 Ar sail ein rhagdybiaethau, mae'n debygol bydd angen adnabod ychwaneg o arbedion erbyn 2020/21 a 2021/22, a gall hynny fod cymaint â £10m dros y ddwy flynedd. Os bydd y senario canolog i'n tafluniadau ni yn digwydd, byddai angen £5.6m mwy o arbedion dros y ddwy flynedd 2020/21 a 2021/22, ond bydd elfen o gynnyrch arbedion 2019/20 (hyd at £4.2m) ar gael i achub y blaen wrth gyfarch rhan o'r arbedion fydd angen.

8.3 Felly, bydd angen ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol, tra'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i ariannu awdurdodau lleol yn briodol.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

9.1 Ystyrir fod y lefel gyfredol o falansau cyffredinol, sef £6m, yn briodol ac nid yw'r gyllideb yma'n argymell defnydd o'r balansau sydd yno ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir wybodaeth manwl am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.

9.2 Mae Atodiad 5 yn darparu eglurhad manwl o sefyllfa teg iawn cyllideb ysgolion Gwynedd, lle bydd ychwanegiad at eu hadnoddau oherwydd demograffi a chwyddiant llawn.

9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, ac yn arbennig ynglŷn â chynlluniau arbedion, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb ac mae asesiadau manwl wedi eu paratoi ar gyfer y cynlluniau arbedion unigol, ac hefyd yn gyffredinol ar gyfer y Gyllideb. Mae Atodiad 9 yn ymdrin yn benodol a hyn.

9.4 Mae'r Cyngor yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Rhoddir gwybodaeth am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 10.

9.5 Rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o'r prif risgiau a chadarnhad yn Atodiad 11 fod y cyllidebau yma'n gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| 1 | Crynodeb Cyllideb |
| 2 | Bidiau 2019/20 |
| 3 | Arbedion |
| 4 | Cyfalaf |
| 5 | Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2019/20 |
| 6 | Treth Cyngor |
| 7 | Balansau |
| 8 | Strategaeth Ariannol Tymor Canolig |
| 9 | Asesiad Effaith o Safbwynt Cydraddoldeb |
| 10 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| 11 | Cadernid yr Amcangyfrifon |
| 12 | Penderfyniad Ffurfiol |